



Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Date / Dyddiad: 03.06.2020

Subject / Pwnc: Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Gwybodaeth gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu pob rhan o bwerau datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Mae CCUHP yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer llunio pob polisi i blant a phobl ifanc ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

Mae'r argyfwng presennol yn her ddifrifol i allu plant i fwynhau'r Hawliau Dynol a ddylai fod ganddynt o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Yn ddiamau mae'r cyfnod hwn yn effeithio ar fywyd pob plentyn sy'n byw yng Nghymru, ond mae hefyd yn hanfodol bwysig sylweddoli y bydd eu profiadau'n amrywio'n aruthrol, yn arbennig ond nid yn unig o ganlyniad i'r anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bresennol cyn ymlediad y Coronafeirws (COVID-19).

Bydd yr ymateb hwn yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n gysylltiedig â chylch gorchwyl y Pwyllgor hwn:

- Arwyddocâd sicrhau bod yr ymatebion i Covid-19 yn cymryd hawliau dynol plant i ystyriaeth.
- Mae'r materion mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi eu codi gyda'm swyddfa hyd yma yn cynnwys materion yn ymwneud â thlodi plant, plant ag anableddau, a phlant sy'n profi cam-drin domestig. Ar hyd y cyfnod hwn, rwyf wedi codi amrywiaeth o'r materion polisi hyn gyda swyddogion ar draws y Llywodraeth.
- Ystyried sut mae symud ymlaen – Ochr yn ochr â'r golled a'r heriau a welsom, mwy o gydnabod yr anghydraddoldebau sy'n bodoli, tosturi, a ffyrdd newydd o gefnogi ein gilydd a chydweithio. Ni ddylid colli'r rhain wrth symud ymlaen, na chwaith y materion oedd yn derbyn sylw cyn y pandemig trwy'r adolygiad tlodi plant ac Ymchwiliad y Pwyllgor, Budd-daliadau yng Nghymru: Gwell Opsiynau ar gyfer Cyflwyno.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno ymateb llawn i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (Pwyllgor PPIA), yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd sy'n croestorri pob agwedd ar fywydau plant.

At ddibenion eglurder mae'r ymateb hwn yn defnyddio'r termau plant a phobl ifanc fel ei gilydd i gyfeirio at unrhyw un o dan 18 oed.

Hawliau Dynol Plant

Mae CCUHP yn rhoi set unigryw o hawliau dynol i bob plentyn. Mae'n nodi bod gan blant anghenion gwahanol a phethau gwahanol sy'n eu gwneud yn agored i niwed, ac y dylent felly gael eu cydnabod a'u hamddiffyn mewn ffordd benodol.

Mae'r holl hawliau yn CCUHP yn gysylltiedig â'i gilydd, ac yn y pen draw dylid ei weld fel cyfanwaith, er y bydd rhai yn ymddangos yn arbennig o berthnasol i fater neu benderfyniadau polisi penodol ar adegau.

Yn achos y pandemig hwn mae'r effaith ar hawliau plant yn bellgyrhaeddol, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r hawl i'r iechyd gorau posibl (Erthygl 24), Amddiffyniad (Erthyglau 19 a 39), safon dda o fyw (Erthygl 27), addysg (Erthyglau 28 a 29), rhyddid i fod yng nghwmni ffrindiau (Erthygl 16) a chwarae (Erthygl 31).

Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, mae Cymru wedi gwneud ymrwymiad penodol i hawliau plant o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi. Mae'r Cynllun Hawliau Plant a'r Aseiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu hyn, a darparu tystiolaeth bod y ddyletswydd hon wedi'i chyflawni.

Ar y sail hon, er mai deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw Deddf Coronafeirws 2020, dylai'r penderfyniadau a wneir i lywio'r Rheoliadau yng Nghymru fod yn destun CRIA. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o sesiwn y Pwyllgor PPIA ddydd Mawrth 5 Mai 2020 nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau unrhyw CRIA ynghylch penderfyniadau o'r fath.

Rwy'n deall bod cyfnod cychwynnol y rheoliadau wedi cael ei sbarduno gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus gor-redol a'r angen am weithredu ar frys. Fodd bynnag, mae'r broses adolygu 3-wythnosol yn caniatáu ar gyfer proses dreigl o gynnal asesiadau effaith. Os na fu modd asesu'r effaith ar blant a phobl ifanc na chasglu eu barn cyn gweithredu'r Rheoliadau gwreiddiol, sut bydd modd monitro'r effaith barhaus er mwyn llywio datblygiad polisi yn barhaus? Mae hyn hefyd yn berthnasol wrth i'r Llywodraeth symud i'r

'cyfnod adfer'; sut byddan nhw'n gwybod beth i'w newid a phryd, heb ddeall effaith y penderfyniadau maen nhw wedi'u gwneud ac a oes effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau penodol, gan gynnwys grwpiau oedd heb eu hystyried o bosib pan luniwyd y Rheoliadau'n wreiddiol?

Er nad wyf o reidrwydd yn disgwyl gweld dogfennau ysgrifenedig hir ar gyfer pob rhan o asesiad effaith, byddwn i'n disgwyl i asesiadau effaith gael eu cynnal a'u cyhoeddi. Mae fy rôl graffu barhaus yn anodd ei chyflawni'n llawn heb ddeall ystyriaethau'r Llywodraeth wrth ddod i unrhyw benderfyniadau. Bydd hyn hefyd yn hybu dull agored, tryloyw o weithredu, a dylai roi sicrwydd i bobl bod eu hamgylchiadau'n cael eu hystyried, gan fod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi cysylltu â mi oherwydd eu bod yn teimlo bod eu hamgylchiadau penodol hwy'n cael eu hanghofio neu eu hanwybyddu ar hyn o bryd.

Mae'r rhain yn agweddau mae fy Mhennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus wedi eu trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (12 Mai) yn dilyn eu cais am gyngor ar asesiadau effaith yn ystod y cyfnod hwn. Byddaf yn parhau i fonitro'r mater hwn, ac rwyf wedi cynnig cyfle i ymgysylltu ymhellach â'm swyddfa os bydd swyddogion yn teimlo y gallai hynny fod o fudd yn y cyfnod digynsail hwn.

Materion mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi eu codi gyda'm swyddfa

Mae'r adran hon yn crynhoi'r materion a godwyd gyda'm swyddfa hyd yma mewn perthynas â chylch gorchwyl y pwyllgor.

Byddwn hefyd yn croesawu'r cyfle i ddarparu canfyddiadau cyhoeddedig yr arolwg cenedlaethol o blant a phobl ifanc "Coronafeirws a fi" i'r Pwyllgor, pan fyddant ar gael. Datblygwyd yr arolwg hwn gan fy swyddfa mewn partneriaeth â Senedd Ieuenctid Cymru, Llywodraeth Cymru a Plant yng Nghymru. Roedd yn agored i blant 7-18 oed, ac yn cwmpasu themâu a materion allweddol yn ymwneud â hawliau plant, gan gynnwys iechyd a llesiant, addysg, yr effaith ar agweddau cymdeithasol o'u bywydau ac anghenion grwpiau penodol. Darparwyd fersiwn hygyrch hefyd, oedd yn cymryd i ystyriaeth anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anabledau.

Cynhaliwyd yr arolwg am 2 wythnos, gan ddod i ben ar 27 Mai, ac mae mwy na 23,000 o blant o bob rhan o Gymru wedi ymateb. Fel arweinydd y prosiect, rydyn ni wedi darparu canfyddiadau o'r arolwg ar unwaith

i Lywodraeth Cymru, a dylen nhw gyfrannu at ddatblygiad polisi er lles anghenion cefnogi plant yn awr ac yn y tymor hwy. Bydd hefyd yn rhoi cipolwg gwerthfawr i mi ar fywydau plant yma yng Nghymru ar yr adeg hon, ac yn fy ngalluogi i eiriol dros y materion sy'n bwysig iddyn nhw.

Tlodi plant

Mae'r ystadegau diweddaraf yn nodi mai plant o hyd yw'r grŵp mwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol (28%) yma yng Nghymru.¹ Fel y bydd y pwyllgor yn ymwybodol, defnyddir hyn yn aml i fesur tlodi plant.² At ddibenion yr adran hon rwy'n cyfeirio at dlodi plant yn fwy cyffredinol, er enghraifft plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel. Rwyf wedi codi llais ynghylch pryderon am dlodi plant ar sawl achlysur, a galwodd fy [adroddiad blynyddol 2018/2019](#) ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun cyflawni oedd yn nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru a mynd i'r afael ag effaith tlodi plant. Argymhellir hefyd fod y cynllun hwn yn cymryd i ystyriaeth y materion a godwyd yn [Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag effaith tlodi](#). Ni ddatblygwyd cynllun o'r math hwn hyd yma, ond yn fy marn i mae hynny'n awr yn bwysicach nag erioed. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau camau gweithredu amlwg, cydlynus, ond hefyd yn darparu gwybodaeth dryloyw a sicrwydd i sefydliadau a theuluoedd bod cynllun yn ei le yn y cyfnod hwn, sy'n peri cymaint o bryder. Rwy'n aros gyda diddordeb i weld a fydd yr alwad hon yn derbyn sylw fel rhan o argymhellion Adolygiad Tlodi Plant y Llywodraeth, sydd i gael ei ystyried yn fuan iawn, yn ôl yr hyn rwy'n deall.

Bwyd a newyn, gan gynnwys ymatebion Awdurdodau Lleol – Mae'r pandemig wedi amlygu faint o blant sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim (FSM) a thrwy anecdotau rwy'n ymwybodol bod rhai Awdurdodau Lleol (ALLau) wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau yn y cyfnod hwn. Mae nifer o rieni, aelodau o deuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi cysylltu â'm swyddfa ynghylch y mater yma.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal y ddarpariaeth o fwyd ar gyfer teuluoedd cymwys, ac wedi ehangu hynny i gynnwys cyfnodau gwyliau'r ysgol hyd yma. Y lwfans dyddiol a gadarnhawyd ar hyn o bryd yw £3.90 fesul disgybl. Mae'n werth nodi mai dyma'r swm uchaf sy'n cael ei dalu am gynllun prydau

¹ <https://gov.wales/relative-income-poverty-april-2018-march-2019>

² <https://seneddresearch.blog/2018/03/16/poverty-in-wales-are-we-getting-the-full-picture/>

ysgol am ddim yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, a'i fod wedi cymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd rhai plant hefyd yn colli eu hawl i dderbyn brecwast neu laeth am ddim yn yr ysgol.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod prydau ysgol am ddim, hyd yma, wedi parhau i gael eu darparu yn ystod gwyliau'r ysgol, a bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ddarparu prydau ysgol am ddim i blant na all eu rhieni/gofalwyr wneud cais am arian cyhoeddus. Mae'r rhain yn bethau a ddylai gael eu hystyried o ddifri yng nghyswllt polisi Llywodraeth Cymru i'r dyfodol.

O ran gweithredu, roedd gofyn bod awdurdodau lleol yn ymateb yn gyflym er mwyn cael hyd i ffyrdd o ddarparu prydau ysgol am ddim tra bod Llywodraeth Cymru yn trefnu cynllun taliadau/talebau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw bellach yn edrych ar sefydlu cynllun o'r fath.

Ers hynny rwyf wedi adolygu a dadansoddi'r ddarpariaeth gan bob awdurdod lleol ar hyn o bryd, a'r materion a godwyd gyda'm swyddfa. Tynnir sylw at agweddau allweddol isod, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y sylwadau a gyflwynwyd gennyf i'r Pwyllgor PPIA.

Mae'n gadarnhaol bod gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol drefniadau yn eu lle bellach i gynnig taliadau uniongyrchol. At ei gilydd mae taliadau uniongyrchol yn achosi llai o stigma na chynllun talebau, ac yn dal i sicrhau bod gan deuluoedd hyblygrwydd i siopa ble bynnag sy'n addas iddyn nhw, yn agos at eu cartref, gan fodloni anghenion unigol a gofynion dietegol eu plentyn. Mae'r taliadau hyn yn tueddu i ddigwydd trwy drosglwyddiad banc. Fodd bynnag, rwy'n deall bod sefydliadau sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai rhai teuluoedd fod heb fynediad at gyfrif banc, a'u bod wedi awgrymu opsiwn talu arall. Dylai'r mater yma dderbyn sylw cyn gynted â phosib, os nad yw hynny eisoes wedi digwydd.

Mae gan nifer o Awdurdodau Lleol drefniadau eraill ar gyfer prydau ysgol am ddim yn digwydd ochr yn ochr ag opsiwn taliadau uniongyrchol. Gallai rhai teuluoedd ffafrio'r dewis yma, ac mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi cyfle i deuluoedd ddewis opsiwn. Mae gweithwyr proffesiynol wedi rhannu bod darparu parseli/blychau bwyd yn ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad â'r plant hefyd, i weld oes arnyn nhw angen unrhyw gefnogaeth gyda'u haddysg neu unrhyw beth arall. Fodd bynnag, soniodd rhai teuluoedd am anawsterau pan oedd angen iddyn nhw gasglu parseli o ganolfannau ysgol, yn arbennig yn sgîl y

cyfyngiadau ar deithio a chcludiant cyhoeddus. Mae fy nhîm wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch hyn, ac rwy'n deall bod yr arfer yn newid. Lle mae parseli/blychau yn cael eu darparu, mae tuedd nawr i'w dosbarthu.

Mae cynnwys y blychau wedi cael ei godi gyda'm swyddfa hefyd. Bwriad prydau ysgol am ddim yw bod plant yn cael pryd poeth, felly ymddengys bod y teuluoedd sydd wedi cysylltu â'r swyddfa yn ffafrio darparu prydau i'w cynhesu neu arian i brynu'r eitemau hyn, yn hytrach na thorthau o fara, llenwad i frechdanau a chreision. Rwy'n cydnabod bod rhai teuluoedd yn debygol o fod yn wynebu tlodi tanwydd ar hyn o bryd, ac mae hynny'n achosi problem os yw'r parseli/blychau bwyd yn cynnwys prydau y mae angen eu cynhesu, ond dyma'r adborth rwyf wedi ei gael gan deuluoedd hyd yma.

O ran arfer awdurdodau lleol byddwn i hefyd yn hoffi i'w gwefannau fod yn gliriach ynghylch sut mae cael mynediad i'r ddarpariaeth a sut mae'r hawl yma'n gweithredu; wrth gynnal fy adolygiad fy hun doedd yr holl wybodaeth ddim wedi ei diweddarau, yn benodol ar gyfer y pandemig na chwaith yn arbennig o hawdd cael hyd iddi. Gan y gallai teuluoedd newydd ddod yn gymwys yn ystod y cyfnod hwn oherwydd colli swyddi a'r cynllun ffyrlo, mae'n bwysig bod teuluoedd yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth hon yn gyflym ac mewn modd uniongyrchol. Dylai hynny fod yn wir hefyd ynghylch gwybodaeth am fathau eraill o gefnogaeth y gallai teuluoedd eu hawlio o bosib yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys; y Gronfa Cymorth Disgresiynol, Taliadau Tai Disgresiynol a Thalebau Cychwyn Iach. Mae fy swyddfa hefyd wedi ysgrifennu at fyrrddau iechyd yn gofyn am wneud yr wybodaeth ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn gliriach i deuluoedd ar eu gwefannau.

Mae ystyried y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim wedi arwain at godi eto y pryderon y gwnes i eu hamlygu yn fy adroddiad Siarter ar gyfer Newid ar brofiadau plant o dlodi yng Nghymru. Byddwn i'n hoffi gweld:

- cofrestru awtomatig ar gyfer plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r grant Mynediad PDG wrth wneud cais am fudd-daliadau eraill fel budd-dal tai neu ostyngiad i dreth y cyngor a
- bod lwfans prydau ysgol am ddim pob plentyn neu berson ifanc yn ddigonol ar gyfer pryd cytbwys, maethlon.

Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) edrych ar sut mae cyflawni hyn ledled Cymru, ac fe ges i gyfle i gwrdd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Phrif Weithredwr WLGA yn gynharach y mis yma i drafod hyn.

Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu problem diogelwch bwyd i blant a theuluoedd, y bydd llawer ohonynt yn cael trafferth ymdopi, ond heb fod yn gymwys i dderbyn pryddau ysgol am ddim. Mae Trussell Trust wedi tynnu sylw at y ffaith bod 122% yn fwy o barseli bwyd wedi bod yn mynd i blant yn y Deyrnas Unedig, o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.³ Rwy'n falch o weld yn y cyfnod hwn bod rhai awdurdodau lleol yn darparu parseli bwyd ychwanegol ar gyfer teuluoedd sydd mewn sefyllfa arbennig o fregus. Rwyf hefyd wedi clywed bod rhai awdurdodau lleol yn awr yn gweithio'n agosach gyda'r trydydd sector er mwyn cydlynu ymdrechion i gyrraedd mwy o bobl yn y ffordd fwyaf effeithiol sy'n bosibl. Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am beth sydd ar gael ar eu tudalennau pryddau ysgol am ddim ar y we. Fodd bynnag, nid ateb tymor hir yw hwn.

Anghydraddoldebau addysg – Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am y pryderon ynghylch effaith byw mewn tloedi ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

Mae ysgolion wedi parhau i osod gwaith a thasgau, a chynnig cefnogaeth ar-lein, ac mae llwyfan HWB wedi bod yn ddefnyddiol dros ben, ond rwyf wedi codi pryderon gyda'r Llywodraeth ynghylch y rhai sydd heb fynediad i'r dechnoleg angenrheidiol. Cyflwynodd y Llywodraeth rai canllawiau yn dilyn camau a gymerwyd yn Lloegr; ar y cychwyn doedd hyn ddim yn glir, ond nawr dylai pob teulu gael eu cynghori i gysylltu â'u hawdurdod lleol os ydyn nhw'n cael unrhyw anawsterau, ac mae arian ychwanegol wedi cael ei ddarparu i awdurdodau lleol. Rwyf wedi gwneud yn siŵr bod grwpiau fel gofalwyr ifanc ac ymadawyr gofal yn cael eu hystyried yn benodol yn y trafodaethau hyn. Nid materion newydd yw'r rhain, ac wrth symud ymlaen fe hoffwn i Lywodraeth Cymru archwilio sut gallan nhw sicrhau bod pontio'r rhaniad digidol yn dod yn arfer normal yn addysg pob plentyn. Rwyf hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith na fydd gan rai plant rywle tawel i weithio gyda desg a chadair i'w defnyddio. Rwyf wedi codi llais ar y mater hwn yn y cyfryngau Cymreig ac ar raglen Today Radio 4 ac yn un o'm [blogiau](#).

³ <https://www.trusselltrust.org/2020/05/01/coalition-call/>

Mae diffyg cyngor i ysgolion ynghylch cyswllt uniongyrchol gydag athrawon a defnyddio gwersi rhithwir i gefnogi'r dysgu yn fater rwyf hefyd wedi derbyn cais i roi sylw iddo. Mae cyfleoedd o'r fath yn arbennig o werthfawr i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Fodd bynnag, nid nhw yw'r unig grŵp sy'n debygol o elwa o'r math yma o gefnogaeth. Er enghraifft, rwy'n ymwybodol bod y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n ceisio lloches ac yn ffoaduriaid wedi amlygu'r heriau sy'n gysylltiedig â chefnogi addysgu gartref yn achos rhieni y mae'r Saesneg yn ail iaith iddyn nhw.

Yn olaf, mae mynychu darpariaeth gofal plant o ansawdd da yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r plant tlotaf eisoes yn dechrau ysgol 10 mis ar ôl plant o deuluoedd sydd â mwy o arian.⁴ Mae rôl bwysig i ofal plant ym mywydau plant a theuluoedd, p'un a yw hynny yn ystod y tymor mewn meithrinfa, yn warchod plant, neu'n glwb plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae rhieni a gofalwyr yn dewis defnyddio gofal plant am nifer o resymau, gan gynnwys tra'u bod nhw allan yn gweithio. Rwy'n ymwybodol o amrywiaeth o bryderon ynghylch cynaliadwyedd y sector gofal plant yng Nghymru. Ar 3 Ebrill fe ges i fy nghopïo i mewn i ohebiaeth gan Bartneriaeth CWLWM yn mynegi eu pryderon ynghylch y Cynllun Cadw Swyddi ac amrywiol ffynonellau ariannu. Fe godais i hyn gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried, gan y bydd angen gofal plant wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Er bod y cynnig gofal plant wedi cael ei ddisodli dros dro gan gynllun cymorth gofal plant y coronafeirws, bydda i'n parhau i eiriol o blaid⁵ cynnig gofal plant yma yng Nghymru a fydd yn golygu bod modd i blant rhieni sydd ddim yn gweithio gael mynediad i leoedd am ddim/sydd â chymhorthdal gan y llywodraeth, er mwyn iddyn nhw gael cyfle i elwa o ofal plant ansawdd da. Mewn rhai ardaloedd economaidd ddifreintiedig yng Nghymru mae hyn eisoes yn cael ei ddarparu trwy ofal plant dechrau'n deg ar gyfer plant 2 a 3 oed. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi, bydd yn bwysig bod y rhain a grwpiau cymunedol eraill mynediad agored sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ifanc, beth bynnag yw sefyllfa economaidd eu rhieni, yn cael eu cefnogi i ailagor cyn gynted â bod hynny'n ddiogel.

Tai a'r amgylchedd o'u cwmpas

Rwyf wedi cael fy ngwneud yn ymwybodol bod Llamau wedi gweld cynnydd o 50% yn nifer y galwadau i'w llinell gymorth digartrefedd ieuenctid, gyda rhai sefydliadau partner ar gyfer yr Ymgyrch Dileu Digartrefedd

⁴ [Comisiynydd Plant Cymru, Papur Safbwynt – Gofal Plant](#)

⁵ [Comisiynydd Plant Cymru, Papur Safbwynt – Gofal Plant](#)

leuentid yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio am gymorth oherwydd i'r teulu chwalu. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i alluogi Awdurdodau Lleol a'u rhanddeiliaid i ddarparu llety i bobl ddigartref ar yr adeg hon, na welwyd ei thebyg o'r blaen. Wrth symud ymlaen dylid rhoi ystyriaeth o ddifri i'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu yn ystod y cyfnod hwn o ran ymdrin â digartrefedd yma yn y tymor byr, canolig a hir.

O ran tai a'r amgylchedd o'u cwmpas, rwy'n eithriadol ymwybodol bod y stoc tai yn amrywio'n fawr yng Nghymru. Bydd rhai plant a'u teuluoedd yn byw mewn eiddo lle nad oes fawr ddim lle y tu allan, os o gwbl. Rwyf wedi gwrandao ar bryderon ynghylch effaith penderfyniadau rhai awdurdodau lleol i gau eu parciau a'u manau gwyrdd a reolir yng nghyswllt yr hawl i chwarae a gwneud gweithgareddau hamdden (Erthygl 31). Mae chwarae'n bwysig ynddo'i hun, ond mae hefyd o fudd i ddysgu, llesiant a iechyd corfforol. Ar ben hynny, nid oes fawr ddim cost ynghlwm wrtho, fel mae'r fideos a bostiwyd gan fy nhîm cyfranogi yn ystod y cyfnod hwn a gwaith Chwarae Cymru yn dangos. Rwyf wedi trosglwyddo'r pryderon hyn ynghylch manau gwyrdd ymlaen i Lywodraeth Cymru, ond gallai hyn fod yn rhywbeth mae'r pwyllgor am edrych ymhellach arno wrth ystyried ymatebion awdurdodau lleol yn ystod y pandemig hwn. Yn y tymor hwy rwy'n credu na ddylai tai a chynllunio, ynghyd â meysydd polisi eraill, anghofio'r gwerth rydyn ni wedi'i roi ar le awyr agored yn ystod yr argyfwng hwn ac ystyried sut gallwn ni sicrhau hyn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, ble bynnag yng Nghymru rydych chi'n byw.

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Plant sy'n ddiodefwr/oroeswyr

Mae modd camgymryd bod cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gamdriniaeth sy'n ymwneud ag oedolion yn unig. Ond fel yr amlygwyd gan [Effaith Profi Cam-drin Domestig ar Blant](#) mae plant sy'n byw ar aelwyd lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn ddiodefwr camdriniaeth. Mae trais rhywiol yn erbyn plant fel arfer yn cael ei alw'n gam-drin ac ecsbloetio plant yn rhywiol.

Cyn y pandemig bydd plant oedd yn dioddef cam-driniaeth gartref, ond yn dod i'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill y tu allan i'r cartref, wedi bod â pheth pellter corfforol rhyngddynt nhw a'r sawl oedd yn eu cam-drin. Mae'n bosib bod hynny wedi darparu rhywfaint o seibiant yn niwrnod y plentyn, er ei fod yn bwysig cofio y bydd effaith y cam-drin yn dal yn bresennol. Fodd bynnag, mae'r amser yma

allan o'r cartref hefyd yn gyfle gwerthfawr iawn i oedolion eraill ym mywyd y plentyn sylwi ar arwyddion camdriniaeth, neu i'r plentyn sôn wrthyn nhw am y cam-drin.

Mae gen i bryderon real iawn felly ynghylch effaith y cyfnod yma ar blant a phobl ifanc agored i niwed sydd yn awr yn treulio'u holl amser yn amgylchedd eu cartref. Yn awr yn fwy nag erioed mae risg wirioneddol y gallen nhw syrthio "o dan radar" gwasanaethau cyffredinol. Rwyf hefyd yn pryderu y gallai teuluoedd oedd heb brofi anawsterau gartref o'r blaen ddechrau wynebu hynny o ganlyniad i'r straen sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Mae'n bwysig bod plant yn cael eu gweld fel rhan o'r agenda cam-drin domestig a thrais rhywiol, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i weld ydy'r gefnogaeth angenrheidiol yn ei lle ar hyn o bryd ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Mae hyn yn ymwneud â'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae i'w groesawu bod Cymru wedi dewis peidio â llacio dim o'r gofynion statudol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a diogelu plant, yn wahanol i'r newidiadau a gyflwynwyd yn Lloegr. Fodd bynnag, bydd llawer o blant nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol i blant yn ymwybodol ohonynt. Mae'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel ei gilydd wedi codi pryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau/adroddiadau yng nghyswllt pob math o gamdriniaeth.

Ar y sail hon, trwy fy ymgysylltu rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru rwyf wedi gofyn droeon am sicrwydd ynghylch sut mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cadw mewn cysylltiad â phlant mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt, ond hefyd blant a nodwyd fel rhai agored i niwed. Rwyf wedi cael gwybod ar lafar ac yn ysgrifenedig gan y llywodraeth bod awdurdodau lleol yn asesu pob achos unigol gan ddefnyddio system raddio Coch Ambr Gwyrdd mewn perthynas â chyswllt wyneb yn wyneb. Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru rannu data manylach y maen nhw'n ei gasglu gan awdurdodau lleol, er mwyn i mi fedru edrych ar hyn o safbwynt annibynnol. Rwyf heb ei dderbyn eto, ond rwy'n disgwyl ei gael yn fuan.

Rwyf wedi ysgrifennu at Heddluoedd Cymru i ofyn am sicrwydd y byddant, os deuant ar draws plant a phobl ifanc allan o'u cartrefi, yn gweithredu mewn modd ymwybodol o drawma i benderfynu pam nad

yw'r plant hynny gartref. Er enghraifft, gallai person ifanc fod allan yn ystod y cyfyngiadau symud oherwydd eu bod nhw'n dioddef ecsbloetio rhywiol. Gallai dull gweithredu ymwybodol o drawma wrth ddod ar draws person ifanc ar y stryd, a allai olygu rhywbeth mor syml â dweud "helo, ydy popeth yn iawn" agor sgwrs am beth sydd wir yn digwydd ym mywyd y person ifanc yna. Rwyf wedi cael sicrwydd ysgrifenedig bod dull gweithredu sy'n ymwybodol o drawma ar waith. Rwyf hefyd wedi cael enghreifftiau o arferion allweddol eraill a gweithio arloesol yn y cyfnod hwn. Rwy'n deall bod pob un o'r 4 heddlu yn dal i weithio oddi mewn i fframwaith Operation Encompass, gydag amrywiadau lleol. "Mae Operation Encompass yn rhoi'r heddlu mewn cysylltiad uniongyrchol ag ysgolion i sicrhau gwell canlyniadau i blant sy'n destun neu'n dystion i achosion o gam-drin domestig y mae'r heddlu'n mynd iddynt."⁶ Ar 28 Ebrill [cyhoeddodd](#) y Swyddfa Gartref y byddai £3.1 miliwn o arian ychwanegol yn mynd at wasanaethau arbenigol i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnyn nhw. Adroddwyd bod y cyllid newydd yma i gael ei rannu rhwng awdurdodau lleol, elusennau plant a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar draws Cymru a Lloegr. Gan nad yw'r wybodaeth ynghylch sut bydd yr arian yma'n cael ei ddefnyddio i helpu plant yma yng Nghymru mewn modd amserol ac effeithiol yn gyhoeddus eto, mae'n bosib yr hoffai'r pwyllgor ofyn am yr wybodaeth honno.

Yn olaf, rwyf wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi proffil pwysigrwydd cyfle i blant fedru codi llais a chael cefnogaeth os ydyn nhw'n profi cam-drin domestig a thrais ar yr adeg hon. Mae fy [Hwb Gwybodaeth Coronafeirws](#) i blant, pobl ifanc ac oedolion hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein a phryderon ynghylch camdriniaeth, esgeuluso neu fathau eraill o niwed.

Plant ag anableddau

Mae holl hawliau plant o dan CCUHP yn gyfartal ac yn berthnasol i bob plentyn. Serch hynny, mae'r confensiwn ei hun yn cydnabod sefyllfa fregus plant anabl, ac nid yn unig yn atgoffa y dylent fyw bywydau mor llawn â phosibl, ond hefyd yn gofyn bod llywodraethau'n gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant ag anabledd a'u teuluoedd ([Erthygl 23](#)).

⁶ <https://www.operationencompass.org/>

Rwyf wedi codi nifer o faterion trwy fy sgysiau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru o ganlyniad i faterion a godwyd gyda'm swyddfa. Mae rhai o'r rhain, ynghyd ag agweddau rwyf am wneud y pwyllgor yn ymwybodol ohonynt, i'w gweld isod.

Yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, cafodd teuluoedd rhai plant ag anabledau fraw oherwydd canllawiau gofal critigol brys NICE yng nghyswllt COVID-19, oedd fel petaen nhw'n dangos y gallai pobl ag anabledau beidio â chael blaenoriaeth o ran mynediad at beiriannau anadlu a thriniaeth. Yn dilyn llythyr cyfreithiol cyn gweithredu yn Lloegr, newidiwyd y canllawiau ar frys, ac fe wnaethon ni lwyddo i ychwanegu hynny at Gwestiynau Cyffredin ein Hwb Gwybodaeth i roi sicrwydd i'r teuluoedd hynny oedd wedi cysylltu â ni.

Bu peth dryswch yn ystod y cyfnod hwn ynghylch y sefyllfa lle mae llythron gwarchod wedi cael eu dosbarthu gan y Prif Swyddog Meddygol, gyda Meddygon Teulu wedyn yn llunio'u rhestrau gwarchod eu hunain o'u cofnodion. Bu dryswch yn arbennig ymhlith teuluoedd plant ag anghenion meddygol perthnasol oedd wedi cael llythron gwarchod gan eu Meddyg Teulu, ond nad oeddent ar y rhestr wreiddiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol iawn bod gan lawer o'r plant hyn anabled. O safbwynt ymarferol, os plentyn yw'r person sy'n cael ei warchod, gallai fod angen i'r rhieni ynysu eu hunain hefyd, gan eu bod yn methu rhoi'r plentyn mewn ystafell ar wahân yn ystod prydau bwyd, er enghraifft, fel mae canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu. Cysylltodd rhiant â ni yn pryderu oherwydd methiant i sicrhau blaenoriaeth wrth ddsbarthu nwyddau o archfarchnad, er eu bod wedi derbyn llythyr gwarchod oddi wrth eu Meddyg Teulu. Cafodd y mater yma ei ddatrys yn y diwedd, ond methodd y rhiant â chael atebion i'w chwestiynau nes i'n swyddfa, yn y pen draw, dderbyn gwybodaeth wedi'i diweddarau. Mae gwybodaeth bellach am hyn a'r materion a godwyd mewn perthynas â mynediad at wasanaethau iechyd wedi'i darparu yn y sylwadau a gyflwynais i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Gwnaed fy swyddfa'n ymwybodol hefyd bod rhieni plant ag anabledau a chyflyrau iechyd yn pryderu fwyfwy ynghylch effaith y cyfyngiadau ar adael y cartref ar iechyd a llesiant eu plentyn. Er na chyflwynwyd y newidiadau ar yr un pryd ag yn Lloegr, rwy'n falch bod Rheoliadau Amddiffyn Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)(Cymru) 2020 a'r canllawiau cysylltiedig wedi cael eu newid.

Mae'n bosib bod gan blant ag anableddau anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal. Mae fy swyddfa wedi derbyn nifer o ymholiadau ynghylch plant sydd â'r anghenion hyn, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau addysg sy'n gyfarwydd iddyn nhw, a dilyniant cefnogaeth gartref fel therapiau neu wersi. Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru mae fy ngwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor wedi cynghori rhieni, os ydynt am ddysgu mwy am y gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw a'u plant, y dylen nhw gysylltu â'u hawdurdod addysg lleol.

O ran hawl i dderbyn cefnogaeth ychwanegol, mae'n bosib y bydd rhai plant ag anableddau yn derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol i blant. Fel yr amlygwyd yn yr adran flaenorol rwy'n falch bod y dyletswyddau statudol i gefnogi plant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi parhau heb newid, yn wahanol i Loegr, er y gallai'r gefnogaeth edrych yn wahanol oherwydd y cadw pellter cymdeithasol a'r cyfyngiadau eraill.

Yn olaf nododd fy adroddiad [Hawliau Dynol Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r Dystiolaeth](#) fod diffyg data cenedlaethol wedi'i ddioli ynghylch plant ag anableddau, ac eithrio ystadegau gwybodaeth sy'n ymwneud ag addysg a chyrhaeddiad. Yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd mae plant ag anableddau wedi codi ar sawl achlysur eu bod yn teimlo mai ychydig o gyfleoedd maen nhw'n eu cael i roi eu barn (Erthygl 12 CCUHP).⁷ Bydd yn bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yn annog ac yn cefnogi plant ag anableddau i roi eu barn ynghylch eu hanghenion unigol a phenderfyniadau polisi sy'n effeithio arny'n nhw. Gall y safbwyntiau a rannwyd trwy'r arolwg cenedlaethol diweddar fod yn fan cychwyn ar gyfer hyn, ond yn y tymor hwy byddai'n gadarnhaol sicrhau trefniadau tymor hwy ar gyfer darlun ac ymateb cenedlaethol.

Symud ymlaen

Mae'r pandemig wedi troi'r sbotolau ar anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli i'n plant, ac mewn llawer o achosion mae wedi peri iddyn nhw waethygu. Mae hefyd yn debygol o fod wedi achosi i rai plant

⁷ Enghreifftiau: Comisiynydd Plant Cymru, [Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal Gwireddu hawliau i holl blant Cymru: Adroddiad dilynol ar hygyrchedd ysgolion yng Nghymru i gadeiriau olwyn \(2018\)](#) a [Paid Dal yn ôl Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu](#)

a theuluoedd brofi anghydraddoldeb o'r fath am y tro cyntaf, er enghraifft trwy dderbyn incwm isel neu ddim incwm.⁸

Fodd bynnag, mae wedi bod yn ysbrydoliaeth gweld llawer o ysgolion, gwasanaethau ieuenctid, elusennau, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn addasu'n gyflym er mwyn cael hyd i ffyrdd newydd o gefnogi plant a theuluoedd. Carwn ddiolch iddyn nhw am eu hymdrechion aruthrol. Mae adrannau blaenorol yr ymateb hwn hefyd yn cydnabod nifer o gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Er na allwn wybod eto pa mor llwyddiannus fydd hyn i gyd, a bydd y pwrs cyhoeddus yn dynn, dylai Llywodraeth Cymru gychwyn y cyfnod newydd hwn gyda ffocws o'r newydd ar leihau'r anghydraddoldebau i blant a theuluoedd. Fel rhan o hyn, dylid cynnal Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant er mwyn helpu i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth o gychwyn cyntaf y broses o wneud penderfyniadau.

Yn ystod yr ymateb hwn rwyf wedi amlygu polisi ac ymarfer a ddylai gael eu hystyried, yn fy marn i, wrth symud ymlaen, gan gynnwys darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau a rhoi sylw i'r rhaniad digidol. Rwy'n sicr y bydd llawer o enghreifftiau eraill o arfer arloesol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cofnodi a'u hystyried. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru wedi trefnu i gefnogi casglu gwybodaeth o'r fath ac mae'n hanfodol nad yw enghreifftiau sy'n ymdrin yn benodol ag anghydraddoldebau i blant a phobl ifanc yn cael eu diystyru.

Hoffwn ategu hefyd fy ngalwad ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer tlodi plant, yn nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru a mynd i'r afael ag effaith tlodi plant. Fel rhan o'm gwaith ar dlodi plant, rwyf hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r holl ffyrdd posibl o ddylanwadu er mwyn lliniaru tlodi plant. Ar y sail hon [yr ysgrifennais i atoch chi'r llynedd](#) yn croesawu Ymchwiliad y Pwyllgor, *Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau ar gyfer gwell cyflwyno*. Rwy'n gobeithio, na fydd y llwybr ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru yn cael ei golli yn sgîl y pandemig. Yn y cyfamser, ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rwy'n credu ei fod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn pwysu am gynnydd yn lefel Credyd Cynhwysol⁹, dod â'r terfyn dau blentyn i ben, dileu'r cap ar fudd-daliadau a'r rhewi o flwyddyn i flwyddyn. Byddaf hefyd yn parhau i godi'r materion hyn

⁸ <https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/welsh-affairs-committee/news-parliament-2017/universal-credit-claims-correspondence-chairs-statement-19-21/>

⁹ Er fy mod i'n cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud yn ystod yr argyfwng presennol.

gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel rhan o'm gwaith ar y cyd â Chomisiynwyr Plant eraill y Deyrnas Unedig.

Cyflwynwyd gan:

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sally Holland', written in a cursive style.

Yr Athro Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru